# Management

THINK ABOUT IT

Awst 2008

**Wales Management Council works with partners within and beyond Wales to promote better management performance at all levels in the economy.**

**As part of that task we encourage managers like you to consider how they can expand their own capabilities and become better at what they do.**

**This monthly digest aims to help you, and people like you, to focus more clearly on the practical challenges you face.**

**We don't pretend to have all the answers but we hope these questions promote thinking that is helpful to you.**

**If you have views on any of the issues raised please let us know.**
**gwyneth.stroud @crc-wmc.org.uk**

## Gadael iddyn nhw fynd?

Ar ôl i'r peldroediwr o Bortiwgal, Christiano Ronaldo, dreulio'r haf yn protestio'i ddymuniad i adael ei gyflogwyr presennol, Manchester United, a symud i'r tîm yn Sbaen, Real Madrid, mae ei fos wedi'i ddarbwyllo i aros. Er gwaethaf y misoedd o ansicrwydd, mae bellach yn honni ei fod yn barod i roi ei 'galon a'i enaid' i'w swydd y tymor nesaf.

A ddylai rheolwr geisio darbwyllo gweithiwr i aros, unwaith y bydd ei neu hi wedi rhoi rhybudd? A yw'n realistig disgwyl iddyn nhw roi'r un lefel o ymrwymiad unwaith y byddan nhw wedi dechrau mynd ar drywydd rhagolygon gyrfa eraill? Os yw'r unigolyn yn rhan allweddol o'r tîm, a yw'n werth ceisio ailgynnau ei frwdfrydedd am ei swydd gyfredol ynteu a yw'n well dioddef y gost a'r anghyfleustra o fynd ati i ddod o hyd i rywun arall mwy awyddus yn ei le?

## Presenoldeb sy'n ysbrydoli!

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae arolwg blynyddol a gynhelir fel rhan o Wobrau Arwain Cymru wedi dangos yn gyson mai'r gallu i ysbrydoli eraill yw'r nodwedd a gysylltir amlaf ag arweinyddiaeth lwyddiannus.

Ydych chi erioed wedi ystyried beth mae'n ei olygu i ysbrydoli eraill, ac wedi meddwl p'un a ydych chi'n cael effaith o'r fath ar aelodau'ch tîm? Ydych chi'n teimlo bod ymddygiad ysbrydoledig yn rhywbeth sy'n dod yn naturiol oddi wrth gyfran o reolwyr ynteu'n rhywbeth y mae angen i rai rheolwyr neu bob rheolwr weithio arno? Pwy ydych chi wedi'i ysbrydoli heddiw?

## Parhau'n ffyddlon dan bwysau

Mewn erthygl ddiweddar am yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, meddai Neville Richardson, Prif Weithredwr grŵp Cymdeithas Adeiladu Britannia: "Pan ydych chi dan bwysau, mae'n hawdd gadael polisïau pobl a thorri cyllidebau marchnata a datblygu pobl er mwyn amddiffyn eich elw. Ond mewn amseroedd anodd, yn fwy nag erioed, y ffordd i ddiogelu'ch busnes yw bod yn ffyddlon i'ch gwerthoedd a chadw at eich addewidion."

Yn wyneb yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, ydych chi'n cael eich temtio i gwtogi ar wario 'dewisol' ar bethau fel hyfforddi a datblygu staff? Weithiau, efallai'ch bod chi'n teimlo nad oes gennych chi ddewis am resymau llif arian. Ond ydych chi'n siŵr mai dyma'r unig opsiwn sydd ar gael ichi, ac ydych chi wedi ystyried effaith tymor hir lleihau gweithgareddau penodol neu gael gwared â nhw'n llwyr?

## Hunanfoddhad ynteu Busnes Da?

Cymharodd yr awdur busnes Jim Collins berfformiad busnes prif weithredwyr cwmnïau proffil uchel â'r rhai sy'n tueddu i gadw draw oddi wrth sylw, a gwelodd fod y rhai nad oedden nhw'n ceisio sylw a chanmoliaeth gyhoeddus yn cyflawni canlyniadau gwell. Ei gyngor oedd: "canolbwyntiwch ar eich rôl, nid ar eich proffil."

Ydych chi'n cytuno ag ef? Oes yna berygl y gallai delwedd gyhoeddus gref a chydnabyddiaeth yn y cyfryngau arwain penaethiaid cwmnïau i dynnu eu llygaid oddi ar y bêl, ynteu a yw'n bwysig i'r busnes eu bod yn adeiladu proffil uchel yn eu cymuned neu sector? Os oes gennych chi broffil o'r fath, a yw'n seiliedig ar falchder ynteu synnwyr busnes cadarn?ei hniadaeth adeiladol?

## Annibendod creadigol

Yn eu llyfr "A Perfect Mess: The Hidden Benefits of Disorder", mae Eric Abrahamson a David Freedman yn honni bod annibendod yn y gwaith yn cynyddu gydag addysg, cyflog a phrofiad. Maen nhw'n dadlau bod awydd cynyddol sefydliadau am daclusrwydd a threfn yn aml yn mygu creadigrwydd y rhai sy'n gweithio ynddyn nhw.

Oes ganddyn nhw bwynt? Ydych chi'n credu bod cadw desg glir a ffeiliau taclus yn rhinwedd weithredol hanfodol, ynteu ydych chi'n teimlo bod peth annibendod ac anrhefn yn ddilysnod rheolwr deinamig a chreadigol?

Cyngor Rheolaeth Cymru
Wales Management Council

*Leading Wales Towards Management Excellence*